ATODLEN 2 — Rheoliad 10

HYSBYSIADAU COSB BENODEDIG

# RHAN 1

## Y WEITHDREFN AR GYFER HYSBYSIADAU COSB BENODEDIG

**1.** Caiff hysbysiad cosb benodedig gynnig y cyfle i berson dalu cosb o £200 ("y gosb") o fewn cyfnod o 28 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad cosb.

**2.** Caiff hysbysiad cosb benodedig hefyd gynnig y cyfle i berson dalu cosb is o £150 ("y gosb ostyngol") os telir o fewn cyfnod o 14 o ddiwrnodau gan ddechrau â'r diwrnod y rhoddir yr hysbysiad cosb.

**3.** Caniateir i'r gosb neu'r gosb ostyngol gael ei thalu drwy bostio llythyr sy'n cynnwys swm y gosb at y person a ddisgrifir ar yr hysbysiad yn y cyfeiriad a ddisgrifir felly. Bernir bod y taliad wedi ei wneud ar yr amser y byddai'r llythyr wedi cael ei ddosbarthu yn nhrefn arferol y post.

**4.** Nid yw paragraff 3 yn atal y gosb rhag cael ei thalu drwy unrhyw ddull arall.

**5.** Os yw awdurdod bwyd o'r farn na ddylai hysbysiad cosb benodedig fod wedi ei roi i berson gan swyddog awdurdodedig sy'n gweithredu ar ran yr awdurdod bwyd, rhaid i'r awdurdod bwyd roi hysbysiad i'r person hwnnw sy'n tynnu'r hysbysiad cosb benodedig yn ôl.

**6.** Os caiff hysbysiad cosb benodedig ei dynnu'n ôl—

(a) rhaid i awdurdod bwyd ad-dalu unrhyw swm sydd wedi ei dalu fel cosb yn unol â'r hysbysiad cosb benodedig, a

(b) ni chaniateir dwyn unrhyw achos na pharhau ag unrhyw achos yn erbyn y person a gafodd yr hysbysiad ar gyfer y drosedd o dan sylw.

**7.** Mewn unrhyw achos, mae tystysgrif—

(a) sy'n cymryd arni ei bod wedi ei llofnodi gan neu ar ran prif swyddog cyllid awdurdod bwyd, a

(b) sy'n datgan bod taliad cosb wedi dod i law neu heb ddod i law erbyn dyddiad a bennwyd yn y dystysgrif,

yn dystiolaeth o'r ffeithiau a ddatganwyd.

# RHAN 2

## FFURF A CHYNNWYS HYSBYSIADAU COSB BENODEDIG

**8.** Rhaid i hysbysiad cosb benodedig roi'r manylion am yr amgylchiad yr honnir eu bod yn ffurfio'r drosedd, sy'n angenrheidiol i esbonio pam mae trosedd wedi digwydd.

**9.** Rhaid i hysbysiad cosb benodedig ddatgan hefyd—

(a) enw a chyfeiriad yr awdurdod yr oedd y swyddog awdurdodedig yn gweithredu ar ei ran pan roddodd y swyddog yr hysbysiad;

(b) swm y gosb a'r cyfnod ar gyfer talu'r gosb;

(c) swm y gosb ostyngol a'r cyfnod y mae'r gostyngiad yn gymwys iddo;

(d) canlyniadau peidio â thalu'r gosb cyn diwedd y cyfnod ar gyfer talu'r gosb;

(e) y person y caniateir i'r gosb neu'r gosb ostyngol gael ei thalu iddo a'r cyfeiriad lle y caniateir ei thalu;

(f) drwy ba ddull y caniateir talu;

(g) y person y caniateir i unrhyw sylwadau sy'n ymwneud â'r hysbysiad gael eu cyflwyno iddo a'r cyfeiriad lle y caniateir eu cyflwyno.

**10.** Rhaid i hysbysiad cosb benodedig hefyd—

(a) hysbysu'r person y mae wedi ei roi iddo am ei hawl i sefyll prawf am y drosedd honedig, a

(b) esbonio sut y caniateir i'r hawl honno gael ei harfer.